# Gweithgaredd 1: Hanes datganoli yng Nghymru

Mae datganoli yn golygu trosglwyddo pŵer i lefel fwy lleol. Mae datganoli yn dod â phenderfyniadau pwysig am Gymru yn agosach atoch chi.

**Allwch chi baru'r dyddiadau cywir â digwyddiadau allweddol yn hanes creu senedd i Gymru?**

**Dyddiadau:** 950 1832 1950 1965 1997 1999 2020

## A ..............................

Mae'r oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn cael ei ostwng i 16 oed.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ailenwi'n Senedd Cymru (a chyfeirir ati yn gyffredinol fel y Senedd) i adlewyrchu ei statws fel senedd lawn.

## B ..............................

Mae Ymgyrch Senedd i Gymru yn rhoi datganoli yn ôl ar yr agenda wleidyddol.

Arweiniwyd yr ymgyrch drawsbleidiol hon gan y Fonesig Megan Lloyd George AS, a chyrhaeddodd benllanw pan gyflwynwyd deiseb yn cynnwys 250,000 o lofnodion yn galw am sefydlu senedd i Gymru.

## C ..............................

Cynhaliwyd refferendwm ar 18 Medi ynghylch creu Cynulliad Cymru.

Y canlyniad oedd **50.3** y cant o blaid, a **49.7** y cant yn erbyn, gyda mwyafrif o ddim ond **6,721**.

## Ch ..............................

Mae mudiad y Siartwyr yn dechrau, wedi'i enwi ar ôl Siarter y Bobl a oedd â chwe phrif nod gan gynnwys ehangu'r hawl i bleidleisio, sicrhau cydraddoldeb yn y gymdeithas, diogelu hawliau dynol ac ati.

## D ..............................

Cyfarfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ar 12 Mai cyn ei agoriad swyddogol gan Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II ar 26 Mai.

Roedd 24 o'r 60 Aelod Cynulliad yn fenywod mewn maes a oedd, hyd at y pwynt hwnnw, wedi'i ddominyddu gan ddynion.

## Dd ..............................

Yn dilyn etholiad y DU ym 1964, crëodd y Llywodraeth Lafur newydd swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Y flwyddyn ganlynol, sefydlwyd Swyddfa Cymru i weithredu polisi Llywodraeth y DU yng Nghymru.

## E ..............................

Yn ystod teyrnasiad Hywel Dda, cafodd deddfau brodorol Cymru eu codeiddio am y tro cyntaf, sy'n golygu eu bod yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Cymraeg oedd iaith y gyfraith ac roedd system y gyfraith yn sylweddol wahanol i Loegr.

**Oeddech chi'n gwybod?**

Amcangyfrifir bod 22 o bobl wedi cael eu lladd mewn protest gan y Siartwyr yng Nghasnewydd. Cafodd llawer eu harestio a'u halltudio i Awstralia!

Dysgwch fwy am eu hachos a sut aeth menywod ati yn ddiweddarach i ymgyrchu dros eu hawl i bleidleisio.



